Cydymdeimlad, Cofion a Chyfarchion

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Meinir H. Jones (Groes) a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli brawd Meinir, sef Meirion Wynne. Yn yr un modd, cydymdeimlwn â John C. Jones (Llansannan) a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli Ruth, chwaer John. Hyderwn y caiff y ddau deulu adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt yn eu galar a'u hiraeth. Gweddïwn ar i bawb sy'n galaru am anwyliaid brofi Duw yn ddigon y dyddiau hyn.

Parhawn i gofio am Eurgain Pierce (Llannefydd) sydd wedi cael ei symud yn ôl i'r Inffirmari erbyn hyn. Diolchwn am y gofal y mae'n ei dderbyn a gweddïwn ei bod yn profi daioni'r Arglwydd yn ei chynnal yn ei hangen. Cofiwn hefyd am eraill o'n plith sydd ddim yn dda eu hiechyd a chyflwynwn hwy hefyd i ofal Duw gan weddïo y bydd, yn Ei holl ddaioni, yn rhoi nerth a chysur iddynt yn eu hangen.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Gwilym Davies (Llansannan) ar ddathlu pen-blwydd arbennig wythnos nesaf!

Llongyfarchiadau hefyd i Eleri Ames, a Robin a Margaret Davies fydd yn derbyn Medal Gee am eu ffyddlondeb i'r Ysgol Sul mewn oedfa arbennig yn Groes ar Ebrill 14eg.

Casgliad Cenhadol Chwiorydd y Gogledd (EBC)

Os ydych yn dymuno cefnogi gwaith cenhadol yn lleol a thramor, bydd trysorydd eich eglwys yn ddiolchgar o dderbyn eich cyfraniad **erbyn Dydd Sul, Ebrill 7fed**, os gwelwch yn dda. (***Nodyn i'r Trysoryddion:*** *Er mwyn galluogi'r Ofalaeth i drosglwyddo'r arian mewn da bryd, wnewch chi roi gwybod i Mair erbyn* ***Ebrill 10fed*** *gyfanswm casgliad eich eglwys, os gwelwch yn dda? Gallwch wedyn dalu'r arian i gyfrif yr Ofalaeth naill ai ar-lein, neu trwy anfon siec i Mair yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled', mor fuan â phosib wedi hynny.)*

Coleg y Bala

⇒ **Penwythnos Chwaraeon (Mai 4ydd–5ed) –** Penwythnos i bobl ifanc blynyddoedd 7-10 sy'n caru chwaraeon. Bydd cyfle i chwarae pêldroed, rygbi, polo dŵr, pêlfasged a llawer mwy. Bydd cyfle i glywed sgyrsiau ysbrydoledig hefyd am sut mae ffydd yn cymell nifer i roi o'u gorau i'w chwaraeon. Y gost fydd £49 am y llety, bwyd a'r holl weithgareddau.

⇒ **Miri Mai (Mai 17eg-18fed) –** Penwythnos blasu i blant 8-11 oed sydd heb fod ar benwythnosau plant y Coleg o'r blaen. Bydd gemau, nofio, ffynnon siocled, canu, crefft ac wrth gwrs cyfle i glywed storïau cyffrous o'r Beibl.

Mae'n bosib cofrestru ar-lein (colegybala.org) neu trwy ffonio 01678 520565. (Cofiwch mai hanner y pris fydd y gost i'r ail neu drydydd person o'r un teulu, a bod Eglwysi Bro Aled yn cynnig £10 o ostyngiad i bob disgybl mewn addysg sydd am fynychu.)

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 7 Ebrill 2024

eglwysibroaled.com rhaglendorcas.com llanw.org

Chwe mis

Wn i ddim be ydi'r gair Cymraeg amdano. Beth bynnag ydyw, mae'n alaethus o drist mai am *deconfliction* y mae cynifer o lywodraethau a'u harweinwyr yn dal i sôn yng nghyd-destun y rhyfela sy'n ddim llai na hil-laddiad yn Gaza. Yn fras, *deconfliction* ydi'r cyd-drafod a'r cydweithio rhwng byddinoedd ac asiantaethau dyngarol er mwyn gwarchod pobl ddiniwed ac 'osgoi damweiniau' ar faes y gad. Y saith gweithiwr dyngarol a laddwyd ddydd Llun y Pasg oedd y diweddaraf o oddeutu 200 a laddwyd yn Gaza ers mis Hydref. Credir bod dros 40,000 o bobl wedi eu lladd yno; oddeutu 15,000 ohonynt yn blant. Mae heintiau a newyn yn bygwth lladd miloedd lawer eto, a rhai o'r asiantaethau a fu'n darparu cymorth wedi gorfod atal eu gwaith.

Ac mae pobl yn dal i drafod *deconfliction* yn hytrach na galw am ddiwedd i'r saethu a'r bomio a'r lladd! A llywodraethau, fel un San Steffan, yn dal i anfon arfau i Israel – gan fynegi gofid yr un pryd am yr holl ladd y mae'r fath arfau'n ei achosi! Ers dechrau Hydref, mae eglwysi ac enwadau, ynghyd ag eraill o wahanol ffydd a chred, wedi codi llef dros heddwch a therfyn i'r lladd. Mae'r angen i ddal i wneud hynny'n cynyddu. Cyfrannodd enwadau ac eglwysi hefyd, ynghyd â'u haelodau unigol, arian at waith elusennau a fu'n anfon cymorth i Gaza. A chynyddu hefyd y mae'r angen i ddal i wneud hynny.

Heddiw, y 7fed o Ebrill, mae'n chwe mis union ers yr ymosodiad dychrynllyd ar Israel gan Hamas a arweiniodd at y dial anghymesur ar Gaza a'i phobl nad oes gan Lywodraeth Israel eto'r bwriad lleiaf i ddwyn diwedd buan iddo. Chwe mis o ddial a lladd a meithrin casineb a fydd yn parhau dros genedlaethau. Chwe mis hefyd o ddioddef ac ofni ac anobeithio. A gwaetha'r modd, o du cynifer o arweinwyr gwledydd byd, chwe mis o fudandod a chefnogaeth a chywilydd.

Ac o ran ein heglwysi? Diolch am bawb a fu'n ein hatgoffa fod codi llais dros y gorthrymedig, a'u cynorthwyo, yn rhan o'n cyfrifoldeb fel dilynwyr i Iesu Grist. Diolch hefyd am bawb a fu'n ein hannog i wneud hynny. Ond ynghyd â'r codi llais a'r cyfrannu, a gafwyd chwe mis o weddi? Mor rhwydd y medrwn ddiffygio yn ein gweddïau dros eraill, ymhell ac agos mewn amrywiol amgylchiadau. Wrth gyffesu heddiw y gallasem fod wedi gwneud llawer mwy, ymrown o'r newydd – yn nerth yr Arglwydd – i wneud yn llawer gwell.

Y Parch. John Pritchard

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Ebrill 7fed

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yng Nghefn Meiriadog** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. John Treharne. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion yng Nghefn Meiriadog am 10:15.
- **Oedfa yng Nghefn Berain** am 9:30 ac **yn Groes** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Gwyndaf Jones. Ar ddechrau'r oedfa, fe fydd aelodau Capel Groes yn cael cyfle, trwy bleidlais gudd, i fynegi eu barn ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid. Bydd Ysgol Sul y plant yn Henllan am 10:00 ac Ysgol Sul yr oedolion yn Groes am 10:15.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 ac **yn Nantglyn** am 2:00 y pnawn o dan arweiniad Mr Alun Jones.
- **'Gwreiddiau' –** Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y pnawn (a phob pnawn Sul arall).

Dydd Mawrth, Ebrill 9fed

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Festri Capel Saron am 7:30 yr hwyr.

Dydd Mercher, Ebrill 10fed

- **Cymdeithas Lenyddol Capel Henllan** am 7:30 yn y Festri. Noswaith yng nghwmni'r Parch. Martin Pritchard yn sôn am ei waith fel caplan i'r fyddin. Croeso i bawb.

Dydd Iau, Ebrill 11eg

- **Hwyl Pnawn Iau (ar gyfer oedran derbyn – Bl.6)** yn Llansannan o 3:15–4:30 y pnawn. Os oes eraill am ymuno, plîs cysylltwch ag Anti Olwen (07359 154228).

Dydd Sul, Ebrill 14eg

- **Oedfa yn Llanfair** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad Mr Dafydd Picton Jones. Ar ddechrau'r oedfa yn Llansannan, fe fydd aelodau yr Eglwys Bresbyteraidd yn cael cyfle, trwy bleidlais gudd, i fynegi eu barn ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid ar gyfer Eglwys Unedig Llansannan. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa.
- **Oedfa Thema yn Henllan** am 10:00 gyda'r casgliad yn mynd tuag at Gasgliad Cenhadol Chwiorydd y Gogledd.
- **Cyfarfod Gweddi yn Llannefydd** am 10:00.
- **'Beibl a Brechdan Bacwn'** yng Nghefn Berain am 10:00.
- **Oedfa Gymun yn Saron** am 10:00 ac **Oedfa yn Nantglyn** am 2:00 o dan arweiniad y Parch. John Pritchard. Ar ddechrau'r oedfa yn Nantglyn, fe fydd yr aelodau yn cael cyfle, trwy bleidlais gudd, i fynegi eu barn ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid.
- **Oedfa arbennig yn Groes** am 5:30 yr hwyr pryd y bydd Eleri Ames, a Robin a Margaret Davies yn derbyn Medal Gee am eu ffyddlondeb i'r Ysgol Sul. Bydd yr oedfa o dan arweiniad y Parch. Aled Davies. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Mawrth, Ebrill 16eg

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.

Dydd Iau, Ebrill 18fed

- **Hwyl Pnawn Iau (ar gyfer oedran derbyn – Bl.6)** yn Llansannan o 3:15–4:30 y pnawn. Os oes eraill am ymuno, plîs cysylltwch ag Anti Olwen (07359 154228).

Dydd Sul, Ebrill 21ain

- **Cyfarfod Gweddi yn Llansannan** ac **yn Llanfair** am 10:00 ac **yng Nghefn Meiriadog** am 10:30. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg yn Llansannan.
- **Oedfa yn Llannefydd** am 9:30 ac **yn Henllan** am 11:00 o dan arweiniad Mr Arfon Jones. Bydd Ysgol Sul y plant yn Henllan am 10:00 a'r Ysgol Sul yn cydredeg â'r oedfa yn Llannefydd.
- **Oedfa'r Fro** yng Nghefn Meiriadog am 6:00 yr hwyr gyda Huw Tan y Graig yn arwain a Mr Arfon Jones yn pregethu.

Lleuwen Steffan – Emynau Coll y Werin

Cofiwch am daith y gantores Lleuwen Steffan o amgylch capeli Cymru.
Bydd yn perfformio yng Nghapel y Waen, Llanelwy am 1:00 y pnawn
ac yng Nghapel Mawr, Dinbych am 7:00 yr hwyr
dydd Mawrth, Ebrill 30ain.

Manylion Cyswllt

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn nos Fercher (17eg), os gwelwch yn dda.